Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Babinogion Menai Cyf**

**Yr Hen Ysgol Gynradd**
**Ffordd Pentraeth**
**Porthaethwy**
**LL59 5HS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**7 Mehefin 2018**

***Welsh Government © Crown copyright 2018.***
*You may use and re-use the information featured in this publication (not including logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government License. You can view the Open Government License, on the National Archives website or you can write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, or email: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*You must reproduce our material accurately and not use it in a misleading context.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Babinogion Menai Cyf wedi'i chofrestru i ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 59 o blant mewn adeilad ar gyrion tref Porthaethwy, Ynys Môn. Gwenan Williams yw'r unigolyn cyfrifol a'r person â gofal sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, a chaiff ei chefnogi gan ddirprwy reolwr. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener bob wythnos rhwng 7.30am a 6pm. Er bod y rhan fwyaf o staff yn siarad Cymraeg a Saesneg, nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Gweithredol' Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn derbyn gofal gan dîm o staff cymwys a phrofiadol. Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac yn gwneud cynnydd da, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae gan staff berthnasau cynnes a gofalgar â'r plant, ac maent yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ysgogol er mwyn hybu eu datblygiad cyffredinol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod adnoddau'n hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant. Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned ehangach. Maent wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm o staff sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

### 2. Gwelliannau

Mae gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf yn cynnwys:

- prynu mwy o deganau ac offer ;megis y gegin fwd y tu allan;
- mae'r staff bellach yn cofnodi gwybodaeth ychwanegol yn llyfr cyfathrebu'r ystafelloedd chwarae er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth a rennir gan rieni ynglŷn â'u plentyn o ddydd i ddydd;
- trefnu dawns fale a sesiynau 'Sŵn a Sbri' ar gyfer y plant.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaed dau argymhelliad o ran staff yn hybu annibyniaeth y plant ymhellach a sicrhau bod pob gweithgaredd yn addas ar gyfer oedrannau'r plant.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maen nhw wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a staff, ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn datblygu eu sgiliau hunangymorth a sgiliau corfforol yn dda.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn cyfleu eu hanghenion.

Roedd digonedd o gyfleoedd ar gael i'r plant arwain eu chwarae eu hunain a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, dewisodd rhai ymuno â gweithgareddau grŵp, tra bu i eraill chwarae gyda'u ffrindiau neu ar eu pen eu hunain. Gofynnwyd i'r plant pa gân yr hoffent ei chanu, a gwnaethant hefyd benderfynu pan oeddent wedi cael digon i'w fwyta neu yfed. Ymatebwyd yn gadarnhaol i bob ymdrech i gyfathrebu, megis gwrandawodd y staff pan oedd y plant iau yn adrodd stori, a phan oeddent yn dangos arwyddion eu bod wedi blino, cawsant eu cysuro'n dyner cyn mynd i gysgu.

Mae plant yn lleisio eu barn ac maen nhw'n gwybod y bydd eu dewisiadau'n cael eu parchu.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.

Roedd y plant wedi ymgartrefu ac yn deall y drefn ddyddiol, er enghraifft, gwnaeth pob un ohonynt aros yn daclus mewn rhes cyn cerdded yn ofalus i lawr y grisiau i'r ardal chwarae awyr agored. Roeddent yn profi ymdeimlad o berthyn gan fod llawer o'u darnau o waith crefft wedi eu harddangos yn eu hystafelloedd chwarae unigol, ac roedd modd iddynt hongian eu cotiau a'u bagiau ar y pegiau personol. Roedd gan y plant berthnasau cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd – bu iddynt eistedd yn gyfforddus gyda'i gilydd yn ystod gweithgaredd celf a chrefft, neu gyflwyno eu llaw er mwyn i aelod o staff eu helpu i ymarfer eu sgiliau cerdded.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel o dan ofal cyson a serchog staff maent yn eu hadnabod yn dda.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac â'r staff.

Roedd y plant yn deall y rheolau ar gyfer ymddygiad, megis rhannu eitemau chwarae a bod yn garedig wrth ei gilydd. Roeddent yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn dda, a phan oedd y staff yn eu hannog, bu i'r rhan fwyaf ohonynt eistedd gyda'i gilydd i wneud gweithgareddau amser cylch. Roedd y plant yn gwenu wrth gael eu canmol, er enghraifft, pan wnaethant helpu i dacluso a phan oeddent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd – gan gynnwys eu ffrindiau mewn gemau a gweithgareddau yn aml iawn.

Mae'r plant yn garedig, yn barchus ac yn dysgu sut i gydweithio'n gadarnhaol.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau dysgu a chwarae yn fawr iawn.

Cafodd y plant lawer o hwyl wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, roedd rhai wedi eu cyfareddu wrth ddod o hyd i'r eitemau oedd yn gysylltiedig â'r Pasg yn yr hambwrdd archwilio, neu guddio wrth chwarae 'pi-po' gydag aelod o staff. Bu i'r plant ganolbwyntio'n dda ar eu gweithgareddau dewisol, megis pan wnaeth pob un ohonynt wrando'n astud ar stori, ac ymuno â'r stori yn llawn brwdfrydedd. Roeddent yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu, er enghraifft, tywod, crefftau ac adeiladu. Bu i'r rhai a oedd yn mynd y tu allan i chwarae, drafod yn gyffrous pa weithgareddau roeddent yn mynd i'w dewis, a'r gemau roeddent yn mynd i'w chwarae. Dywedodd y plant wrthym yn ein holiaduron a roddwyd yn ystod yr arolygiad eu bod yn mwynhau chwarae y tu allan, darllen, lliwio a phaentio.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae yn dda iawn, ac yn dangos diddordeb mawr yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud.

### 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae plant yn datblygu'n dda, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn gwybod lle i ddod o hyd i deganau gan fod ardaloedd o ddiddordeb wedi eu gosod yn dda ac roedd adnoddau o fewn eu cyrraedd. Roeddent yn datblygu eu sgiliau hunangymorth, gyda'r plant iau yn cael eu hannog i fwydo eu hunain - gyda'r staff gerllaw i gynnig help llaw pan oedd angen. Fodd bynnag, nid oedd yr holl blant yn cael eu hannog i roi eu cotiau eu hunain amdanynt i fynd i chwarae y tu allan - a oedd yn dasg o ystyried eu hoedrannau y dylent fod yn gallu llwyddo ei gwneud eu hunain, a hybu eu hannibyniaeth ymhellach. Roedd iaith y plant yn cael ei hymestyn drwy'r nifer o sgyrsiau a gawsant gyda'i gilydd a'r amrywiol weithgareddau. Er enghraifft, gwnaeth gweithgaredd cardiau fflach annog y plant i siarad am y lluniau. Gofynnodd y staff iddynt 'pwy sydd â chi' pan ddangoswyd llun o gi - ymatebodd un plentyn nad oedd ganddo gi, ond bod cath ganddo. Roedd y plant yn dysgu am iechyd corfforol da drwy fwyta prydau bwyd a byrbrydau maethlon a oedd wedi'u paratoi'n ffres, a chwarae y tu allan yn yr awyr agored. Roeddent yn defnyddio eu dychymyg yn dda gan greu gemau a straeon.

Ar y cyfan mae'r plant yn cael ystod eang o brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a dilyn eu diddordebau.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r staff wedi ymrwymo i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Maent yn rheoli rhyngweithio yn dda, gan gynorthwyo’r plant i gyfathrebu’n gadarnhaol ac ymddwyn yn briodol. Mae'r staff yn hybu dysgu a datblygiad y plant ac mae ganddynt berthynas gynnes a gofalgar â'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae’r ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae’r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau ac yn dilyn arfer da.

Roedd y staff wedi ymrwymo i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach gan weithredu polisïau a gweithdrefnau i’w cynorthwyo. Roeddent yn deall y polisi diogelu, a dywedasant wrthym yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Roedd damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi’n briodol ac yn cael eu rhannu gyda’r rhieni a staff a’u llofnodi ganddynt. Roeddent wedi mynychu cyrsiau cymorth cyntaf pediatrig, sy'n golygu eu bod yn gallu rhoi cymorth cyntaf sylfaenol pe bai angen.

Roedd staff yn dilyn arferion hylendid da, gan sicrhau bod y byrddau'n cael eu glanhau cyn ac ar ôl cinio, ac yn annog y plant i olchi eu dwylo'n gywir. Roedd y staff yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i’r plant wneud ymarfer corff a threulio amser y tu allan yn yr awyr iach. Gwnaethant sicrhau bod yr ardaloedd chwarae dan do yn rhoi digon o le i'r plant fod yn brysur y tu mewn, megis gofod i'r babanod gropian, rolio a chodi eu hunain i sefyll. Roedd y staff yn darparu prydau bwyd, diodydd a byrbrydau iach ac yn hyrwyddo iechyd da.

Mae'r staff yn effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.

### 2.2 Pa mor dda mae’r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae’r staff yn rheoli’r rhyngweithio yn dda iawn.

Roedd staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac yn esiampl o ymddygiad cadarnhaol. Roeddent yn sicrhau bod digonedd o gyfleoedd i’r plant ddysgu rhyngweithio'n briodol trwy brofiadau cymdeithasol. Bu i staff eistedd ger y plant, siarad â nhw mewn ffordd dyner ac yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn dda trwy ganmol a bod yn garedig. Roedd y staff yn dangos cynhesrwydd a hoffter go iawn tuag at y plant – roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd roedd y plant yn ymateb i'w gilydd a'r staff.

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy fod yn esiamplau da a thrwy ddangos caredigrwydd a pharch tuag at y plant.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu ar gyfer y plant, sy'n eu galluogi i ddatblygu amrediad o sgiliau.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion datblygu. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol gan rieni, a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o drefn arferol y plant a'r hyn y maent yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi cyn iddynt ddechrau gofalu amdanynt. Er enghraifft, dywedodd y staff wrthym am batrymau cysgu'r plant, a sut oedd y plant yn hoffi cysgu – a gwelsom hyn yn ymarferol. Roedd cofnodion ysgrifenedig dyddiol wedi'u cwblhau ac yn crynhoi diwrnod y plentyn yn y gwasanaeth – fe'u rhoddwyd i rieni pan oeddent yn casglu eu plentyn.

Roedd staff yn cofnodi datblygiad y plant ac ar y cyfan yn cynllunio gweithgareddau priodol ac amrywiol bob dydd a oedd yn gweddu i'w hoedrannau. Fodd bynnag, yn ystod un gweithgaredd amser cân yn yr ystafell fabanod, bu i'r staff ruthro drwy'r caneuon, yn eu canu un ar ôl y llall heb roi cyfle i'r plant iau gymryd rhan yn llawn. Mae'n bwysig bod staff yn ystyried oedrannau'r plant, ac yn sicrhau bod y gweithgareddau a drefnwyd yn addas ar gyfer gallu'r plant a'u camau datblygu.

Dywedodd staff wrthym fod y dosbarthiadau 'Sŵn a Sbri' newydd (dosbarthiadau cerddoriaeth a chanu i blant iau) yn llwyddiannus, gyda'r tiwtor Sŵn a Sbri yn dod i'r gwasanaeth yn rheolaidd i wneud sesiynau a drefnwyd yn benodol er mwyn gweddu i oedrannau'r plant. Cadarnhaodd y staff eu bod yn ysgogol ac yn cefnogi datblygiad a dysgu'r plant, yn ogystal â'u bod yn hwyl a bod pawb yn eu mwynhau.

Roedd y staff yn cyflwyno'r Gymraeg yn aml i chwarae a dysgu'r plant, ac roeddent yn sicrhau eu bod yn siarad â'r plant yn eu hiaith ddewisol, naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg. Roedd bron pob aelod o staff wedi'i gymell - er enghraifft, darllenodd un aelod o staff stori, a bu iddi ymgysylltu â 'r plant yn dda iawn drwy oedi o bryd i'w gilydd i roi cyfle i'r plant ymuno â'r rhigwm. Roedd hi'n gwybod sut i gael yr ymateb gorau gan y plant drwy wneud y stori'n hwyl a chynnal eu diddordeb. Roedd staff yn hapus ac yn hyderus; roeddent yn gweithio fel tîm ac roedd ganddynt brofiad a gwybodaeth am ddatblygiad plant.

Ar y cyfan, mae'r staff yn hybu datblygiad pob plentyn, ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, sicr a chroesawgar. Mae'r adnoddau a'r offer yn lân ac mewn cyflwr da. Mae digon o le a golau yn yr amgylchedd, ac mae ystafelloedd chwarae sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ysgogol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd system ddiogel i gyfyngu mynediad i’r gwasanaeth; mae'r drws sy'n arwain at y feithrinfa yn cael ei chloi, a'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn unig sy'n gwybod y cod diogelwch. Roedd yr ardal chwarae y tu allan yn gaeedig, a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr - sy'n golygu bod arweinwyr yn sicrhau nad oedd modd i unrhyw unigolyn gael mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Roedd yr arweinwyr yn cynnal asesiadau risg ysgrifenedig ac yn dangos eu bod yn rheoli'r risg o niwed i'r plant ac yn ei dileu lle bo'n bosibl. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gyda materion yr oedd angen rhoi sylw iddynt yn cael eu trin yn gyflym. Er enghraifft, yn ystod ein harolygiad, bu i dasgmon y gwasanaeth atgyweirio dolen oedd wedi torri ar ddrws a oedd yn arwain at un o'r ystafelloedd chwarae. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel pe bai argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel, ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd cyfforddus ac ysgogol lle mae'r plant yn datblygu ac yn tyfu.

Roedd yr arweinwyr yn cynnig amgylchedd croesawgar a golau i'r plant, ac roedd pob ystafell chwarae wedi'i threfnu’n dda. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ddigon o le i allu chwarae a dysgu yn ddiogel yn yr ystafelloedd chwarae a ddynodwyd iddynt, ac roedd gan fabanod eu hystafell gysgu benodol eu hunain. Roedd yr ardal awyr agored yn gwella dysgu'r plant, megis chwarae gyda'r gegin fwd, defnyddio'r teganau i’w gyrru a chwarae gemau. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y cyfleusterau newid clytiau a'r toiledau wedi'u lleoli'n gyfleus i'w defnyddio. Roedd arddangos gwaith y plant yn y gwasanaeth yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu cyfleoedd chwarae amrywiol, sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n mynychu.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r arweinwyr yn darparu adnoddau sy'n addas i oedran a chamau datblygu'r plant.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at amrywiaeth o adnoddau addas, ac yn hyrwyddo eu dysgu.   Roedd y dodrefn o faint priodol, a oedd yn galluogi'r plant i eistedd yn gyfforddus i fwyta ac i wneud gweithgareddau pen bwrdd. Roedd yr adnoddau'n amrywiol ac yn darparu amrediad o eitemau naturiol, eitemau wedi'u hailgylchu ac eitemau cartref i'r plant ar gyfer gwaith crefft a gwneud modelau – a oedd yn hyrwyddo ethos o gynaliadwyedd yn y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn lân.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi ymrwymo ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth maent yn ei ddarparu. Maen nhw wedi sefydlu systemau effeithiol er mwyn rheoli'r gwasanaeth a sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn wybodus, yn brofiadol ac wedi ymrwymo.

Roedd yr arweinwyr wedi cyflogi tîm staff cymwys a chanddynt y cymwysterau priodol, a oedd yn gweithio'n dda iawn fel tîm. Roedd cyfathrebu â'r staff yn effeithiol a chadarnhaodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u gwerthfawrogi. Rhoddwyd gwybodaeth i'r rhieni cyn i'w plant ddechrau, gan gynnwys datganiad o ddiben y gwasanaeth a'i bolisïau a gweithdrefnau. Roedd hyn yn golygu bod rhieni'n eglur ynglŷn â'r hyn oedd y gwasanaeth yn ei gynnig. Roedd arweinwyr yn gosod amcanion clir er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Er enghraifft, roeddent wedi cwblhau'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy yn llwyddiannus, sy'n rhan o Fenter Ysgolion Iach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal plant cyn-ysgol, gyda'r nod o 'hyrwyddo a diogelu pob agwedd ar iechyd'. Adlewyrchid ethos y cynllun drwyddi draw yn y gwasanaeth ac fe'i gwelwyd yn ystod ein hymweliad, megis drwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a'r gweithgareddau a gynlluniwyd. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod dogfennau'n cael eu rheoli'n effeithiol, ac y cedwid y cofnodion gofynnol yn gywir.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn gwneud gwelliannau cadarnhaol er mwyn symud y gwasanaeth yn ei flaen.

Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ac adroddiad ansawdd gofal cryno, llawn gwybodaeth. Roedd hyn yn ystyried safbwyntiau'r holl bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn, a lle nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella, roedd yr arweinwyr wedi nodi manylion ynghylch sut yr oedd y rhain wedi cael eu trin neu sut y byddent yn derbyn sylw. Er enghraifft, o ganlyniad i un sylw gan aelod o staff yn gofyn am fwy o gymorth yn ystod yr amseroedd yr oedd angen i'r plant ddefnyddio'r drafnidiaeth, fe gyflogodd yr arweinwyr aelod o staff ychwanegol. Cytunodd pob aelod o staff a wnaeth ddychwelyd ein holiadur fod diwylliant o welliant parhaus yn y gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol er mwyn monitro a myfyrio'n rheolaidd ynghylch ansawdd y gwasanaeth maent yn ei ddarparu er mwyn symud y gwasanaeth yn ei flaen.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn cymryd rhan weithredol o ran rheoli'r gwasanaeth ac maent yn gwneud hyn mewn modd trefnus.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant sefydlu manwl wrth iddynt ddechrau. Roedd gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar gyfer cefnogi staff gan y bu i bob aelod o staff gadarnhau yn ein holiaduron bod 'arweinwyr yn weladwy ac yn gefnogol,' a bod ganddynt gyfleoedd i fyfyrio am eu harferion drwy gyfarfodydd un i un rheolaidd, ac arfarniad blynyddol. Gwelwyd tystiolaeth ysgrifenedig hefyd o sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad staff blynyddol yn y ffeiliau staff a oedd yn cydymffurfio a ymchwiliwyd gennym.

Roedd yr arweinwyr yn annog staff i fynychu cyrsiau a hyfforddiant megis Diogelu Plant, Cymorth Cyntaf Pediatrig a Diogelwch Tân. Roedd yr arweinwyr yn mynd y tu hwnt i'r argymhellion o ran cyflogi tîm staff cymwys gan fod y mwyafrif yn meddu ar y cymhwyster Lefel 3 gofynnol ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant, gyda'r dirprwy reolwr wedi llwyddo i ennill cymhwyster Lefel 5 ym maes rheoli a'r blynyddoedd cynnar.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion gan gynnwys cofrestri, cofnodion datblygiad y plant a chontractau'r plant a gwelsom fod y dogfennau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu systemau er mwyn rheoli staff ac adnoddau.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

Roedd yr arweinwyr yn hysbysu rhieni am amser eu plentyn yn y gwasanaeth, ac roedd rhieni'n rhannu gwybodaeth werthfawr ynglŷn â'u plentyn gyda staff cyn i'w plentyn ddechrau. Pan oedd rhieni'n dweud wrth staff unrhyw wybodaeth ychwanegol o ddydd i ddydd ynglŷn â'u plant, megis nad oedd y plentyn yn eu hwyliau arferol, roedd y staff yn nodi hyn yn llyfr 'cyfathrebu' ystafell chwarae'r plentyn. Roedd yr arfer hwn o fantais i'r ddwy ochr, ac yn dangos bod y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni er budd y plentyn. Roedd yr arweinwyr wedi sefydlu arferion cadarnhaol ar gyfer rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda rhieni ar dudalen y gwasanaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn benodol o ran diweddaru rhieni'n rheolaidd ynglŷn â'r gwasanaeth yn ystod cyfnodau o dywydd garw dros fisoedd y gaeaf. Roedd y plant a'r rhieni'n cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian arwyddocaol yn ystod y flwyddyn a oedd yn ehangu dealltwriaeth y plant o ran helpu'r gymuned yn ehangach.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau effeithiol sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai arweinwyr ystyried y canlynol:

- hybu annibyniaeth y plant trwy eu hannog i roi eu cotiau ymlaen eu hunain;
- sicrhau bod y gweithgareddau i'r plant yn addas i'w hoedrannau.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a wnaed fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 27 Mawrth 2018.

Gwnaethom y canlynol:

- arsylwi ar y plant a oedd yn mynychu a'r gofal maent yn ei dderbyn;
- siarad â'r plant, y staff a'r unigolyn cyfrifol;
- edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion gan gynnwys y datganiad o ddiben, polisïau a gweithdrefnau, cofnodion y plant;
- ystyried y sylwadau a gafwyd yn yr holiaduron y gwnaethom eu rhoi yn ystod yr arolygiad;
- adolygu'r adeilad ac ansawdd y teganau ac adnoddau;
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol ynglŷn â'n canfyddiadau a'r hyn y mae angen rhoi sylw iddo.

.

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Gwenan Williams |
| Person â gofal | Gwenan Williams |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 59 |
| Ystod oedran y plant | Geni hyd at 12 oed |
| Oriau agor | 7.30am – 6pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Chwefror 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 27 Mawrth 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Nac ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth cwbl ddwyieithog. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |